PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD LLUN, 4 MEDI 2017

Yn bresenol: Aelodau Annibynnol: Richard Tebboth (Cadeirydd)
Hollie Edwards-Davies a/ac Hugh Thomas
Y Cynghorwyr: Cunnah, Sandrey a/ac Williams

33 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr James Downe a Lizz Rowe (Aelodau Annibynnol)

34 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd yr Aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl fel y cymeradwywyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017 ynghyd â threfn yr Agenda.

35 : CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg aelodau newydd y Cyngor i'w cyfarfod cyntaf yn rhan o'r Pwyllgor, a gwnaethpwyd cyflwyniadau ffurfiol.

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i ar ran y Pwyllgor Hollie-Edwards Davies a fyddai'n gadael y pwyllgor yn fuan gan ei bod yn disgwyl babi yn y Flwyddyn Newydd. Diolchodd Hollie i'r Cadeirydd a'r Pwyllgor am eu cefnogaeth yn ystod ei hamser ar y Pwyllgor a'r effaith gadarnhaol y mae'r Pwyllgor wedi'i chael. Roedd yn gobeithio y gallai fod yn bosibl ar ryw adeg iddi ddychwelyd fel Aelod Annibynnol ond teimlodd na allai ymrwymo'n llwyr i'r Pwyllgor dros y 12 mis nesaf.

36 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Joel Williams Fuddiant Personol yn Eitem 7 – Lleoedd Gwag ar y Pwyllgor – gan ei fod yn Gynghorwr Cymuned yng Nghyngor Cymuned Pentref Llaneirwg. Arhosodd y Cynghorydd Williams yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon (ar y sail nad oedd ei fuddiant personol yn niweidiol).

37 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Materion yn codi

<u>Protocol Datrys Lleol</u> – rhoddodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro ddiweddariad ar newidiadau wedi'u hargymell i'r Protocol Datrys Lleol yr ymgynghorwyd arno gyda'r Uwch Dîm Rheoli ac a fyddai'n cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Tachwedd. Soniodd y Cyfarwyddwr hefyd am y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon am brotocol datrys lleol newydd oedd wedi'i ddrafftio mewn ymgynghoriad ag Un Llais Cymru, ar gyfer Cynghorwyr Cymuned yn benodol.

Dywedodd y Cadeirydd fod gwahoddiad wedi’i gyhoeddi i Gynghorau Cymuned i gyfarfod ag ef ei hun a'r Swyddog Monitro i drafod materion sydd o ddiddordeb iddynt i gyd. Hefyd, cynigiwyd hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Cymuned ar God Ymddygiad a Safonau Moesegol. Mae nifer o Gynghorau Cymuned eisoes wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant Un Llais Cymru ac roedd wedi bod yn anodd cyd-lynu dyddiad addas i Glercod Cynghorau Cymuned gyfarfod ac i Gynghorwyr Cymuned gymryd rhan mewn hyfforddiant ym mis Awst.

Arolwg Gadael Aelodau – Trafododd y Pwyllgor newyddion diwethaf y cyfryngau ar Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor, a adroddodd ar ganfyddiadau Arolwg Gadael Aelodau mewn perthynas ag ymddygiad a bwlio honedig. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod canfyddiadau’r arolwg hwn ar sail data’n ymwneud â’r weinyddiaeth flaenorol. Dywedodd y byddai Arolwg Aelodau arall yn cael ei wneud yn hwyr yn yr hydref i drafod y Sesiwn Sefydlu Aelodau, y cyfleoedd dysgu a chyfeirio at y cwestiynau a ofynnwyd yn rhan o’r Arolwg Gadael. Dywedodd y Cadeirydd, ar ôl canlyniadau'r Arolwg Gadael, ei fod wedi cynnig cyfarfod ag unrhyw Gynghorwyr unigol a ddymunai trafod materion yn ymwneud â'r arolwg yn anffurfiol.

Mynegodd yr Aelodau bryder nad yw newyddion y wasg wedi esbonio’n ddigonol y camau a gymerodd y Cyngor i fynd i’r afael â’r mater, ac awgrymont y gallai’r Cyngor fod wedi gwneud datganiad i egluro bod yr arolwg yn gysylltiedig â'r weinyddiaeth flaenorol, er mwyn cyflwyno'r mater yn deg ac i osgoi camddealltwriaeth. Cytunodd y Swyddog Monitro i drafod hyn gyda Phennaeth Cyfathrebu’r Cyngor.

Dywedodd y Swyddog Monitro mai un o brif ganlyniadau'r arolwg ar gyfer Grwpiau Plaid a Chynghorwyr unigol oedd bod Cynghorwyr yn teimlo bod materion ynghylch ymddygiad gwael honedig, bwlio honedig a materion eraill sy’n cael eu codi yn cael eu cymryd o ddifrif.

Nododd y Pwyllgor na ddylai Arolwg Gadael Mawrth 2017 adlewyrchu ar y Cyngor newydd oedd â nifer o Aelodau newydd eu hethol a thîm Arweinyddiaeth newydd.

38 : DISGRIFIAD RÔL A MANYLEB SWYDD AELODAU’R PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried Disgrifiad Rôl cyffredinol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Aelod o’r Pwyllgor Safonau a Moeseg. Roedd Pwyllgor y Cyfansoddiad, ar 31 Awst 2017, wedi adolygu holl Ddisgrifiadau Rôl Aelodau wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2015 ac wedi ystyried a dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y Cyfansoddiad. Roedd Pwyllgor y Cyfansoddiad wedi cyfeirio’r disgrifiad rôl a disgrifiad rôl y Hyrwyddwr Aelodau yn ôl i’w drafod ac awgrymodd y dylid ystyried sefydlu Grwpiau thematig Trawsblaid hefyd.

Cytunodd y Pwyllgor ar yr angen i ystyried dull cyson o ymgorffori Disgrifiadau Rôl yn y Cyfansoddiad. Y mater pwysicaf oedd bod Aelodau Etholedig, ni waeth pa bynnag rôl sydd ganddynt, yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau.

Roedd Aelodau newydd y Pwyllgor yn awyddus i egluro eu rolau fel Aelodau’r Pwyllgor hwn a chefnogon nhw gyngor y Swyddog Monitro eu bod yn Hyrwyddwyr Grŵp ac y dylent

arwain trwy esiampl ac adrodd i'w grwpiau gwleidyddol ac annog ymddygiad priodol a chydymffurfiaeth â'r Cod Moesegol ac yn rhoi cyngor ar sut i gofnodi toriadau o'r Cod Ymddygiad.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor ar y Disgrifiad Rôl ac nid oedd problemau ganddo o ran ei gynnwys yn y Cyfansoddiad ar yr amod y caiff yr holl Ddisgrifiadau Rôl eu cynnwys.

39 : LLEOEDD GWAG Y PWYLLGOR - AELOD CYNGOR CYMUNED AC UN AELOD ANNIBYNNOL

*(Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn Gynghorydd Cymuned dros Bentref Llaneirwg. Arhosodd y Cynghorydd Williams yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.*

Dywedodd wrth y Pwyllgor am drefniadau arfaethedig i lenwi dau le gwag ar y Pwyllgor.

Daeth cyfnod y Cynghorydd John Hughes yn ei swydd fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned i ben ym mis Mai 2017, ac fel oedd yr Aelodau wedi clywed yn flaenorol, roedd Hollie Edwards-Davies wedi nodi ei bwriad i ddiswyddo o ganlyniad i ymrwymiadau personol.

Ystyriodd y Pwyllgor y rheoliadau a Chyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â'r penodiadau hyn a mynegodd bwysigrwydd cael amrywiaeth o ran Aelodaeth o'r Pwyllgor hwn.

Awgrymwyd a chytunwyd y dylai'r dogfennau ymgeisio ar gyfer y swydd Aelod Annibynnol roi mwy o wybodaeth am yr ymrwymiad amser sy'n gysylltiedig â hi a'r diwrnod arferol y caiff cyfarfodydd y pwyllgor arno.

PENDERFYNWYD – Bod

1. cymeradwyo'r broses arfaethedig i lenwi'r lleoedd gwag;

2. cytunwyd fod dau Banel Penodi: (i) ar gyfer y swydd wag ar gyfer aelod y Cyngor Cymuned, a (ii) ar gyfer Aelod Annibynnol yn cael eu sefydlu, gydag awdurdod dirprwyedig i greu rhestr fer a chyfweld ag ymgeiswyr a gwneud argymhellion ar benodiadau i'r Cyngor llawn;

3. cymeradwyo sefydlu maint a chyfansoddiad y Paneli Penodi dan argymhelliad (2) fel y nodir yn yr adroddiad, ac y byddai'r Clerc i'r Pwyllgor yn ceisio enwebiadau i bob Panel;

4. cymeradwyo'r hysbyseb a'r manyleb person ar gyfer y lle gwag ar gyfer Aelod Annibynnol, fel y nodir yn Atodiadau A a B;

5. y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yn cael awdurdodi i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol i lenwi'r ddwy swydd wag fel y nodir yn yr adroddiad; a

6. codi argymhellion pob un o'r Paneli Penodi o ran penodi i'r ddwy swydd wag i gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth; a

7. diolch i'r Cynghorydd Cymuned John Hughes am ei gyfraniad sylweddol at waith y Pwyllgor dros nifer o flynyddoedd.

40 : CWYNION COD YMDDYGIAD AELODAU – CHWARTER 4, 2016.17

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Pwyllgor am Gwynion wedi'u gwneud yn ystod Chwarter 4 2016/17 a chyflwynodd ddiweddariad ar gwynion wedi'u gwneud yn ystod Chwarter 1 2017/18 yn erbyn Aelodau o'r Cyngor sy'n honni toriadau o'r Cod Ymddygiad. Nodwyd manylion am y cwynion a'r canlyniadau yn yr adroddiad a'r nodyn ategol. Yn Chwarter 4, roedd pum achos wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon. Roedd pedwar o'r achosion wedi'u cau yn dilyn ystyriaeth gychwynnol ac roedd un wedi'i gyfeirio at y Panel Dyfarnu. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o gwynion wedi'u derbyn yn Chwarter 1.

Hefyd, roedd Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2016/17 ar gwynion wedi'i dderbyn a'i ystyried gan y swyddfa wedi'i dderbyn a'i ddosbarthu i'r Pwyllgor dan glawdd ar wahân. Roedd gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y Cwynion i'r Ombwdsmon ers 2015/16.

Gofynnodd yr Aelod Annibynnol am fwy o wybodaeth am bwerau newydd yr Ombwdsmon mewn perthynas â Chwynion.

PENDERFYNWYD –

1. Nodi'r adroddiad ar Gwynion ar gyfer Chwarter 4 2016/17 a Chwarter 1 2017/18; a

2. Nod cynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon.

41 : SESIWN SEFYDLU CYNGHORWYR: - HYFFORDDIANT HANFODOL AR GOD YMDDYGIAD

Derbyniodd y Pwyllgor fanylion am bresenoldeb yr holl Gynghorwyr yn y sesiynau Sefydlu Cod Ymddygiad Hanfodol. Roedd pum Aelod nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ac roedd Chwipiau Plaid wedi cael gwybod am hyn ac roedd sesiwn i gael ei threfnu gyda'r unigolion hyn. Cynigiwyd y cyfle i Aelodau sy'n cael trafferth gyda mynychu sesiynau ffurfiol trwy blatfform e-ddysgu Academi Cymru Gyfan ac roedd sawl Aelod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ar-lein. Dywedodd y Swyddog Monitro fod sesiynau ar ffurf gweithdy yn rhoi'r cyfle i drafod mewn grwpiau a dysgu gan Aelodau mwy profiadol, ac roedd adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn o rai o'r sesiynau cychwynnol.

PENDERFYNWYD – Nodi manylion am Hyfforddiant Hanfodol ar y Cod Ymddygiad wedi'i gwblhau ac y byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro ar sail flynyddol.

42 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG 2016/17

Roedd adroddiad y Pwyllgor Safonau a Moeseg Drafft wedi'i gylchredeg yn rhan o'r papurau. Canmolwyd yr adroddiad a'i gynnwys a rhoddwyd diolchiadau i swyddogion am ddod â'r data ynghyd.

Ceisiodd yr Aelod Cyngor newydd eglurder ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan Gynghorwyr, yn benodol ar y gwahaniaeth rhwng y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn eu rôl fel Cynghorydd ac yn eu bywydau personol. Gofynnwyd i'r Swyddog Monitro roi enghreifftiau o beryglon y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Cynghorwyr i osgoi rhoi enw drwg i'r Cyngor. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod sesiwn Datblygu Aelodau ar y mater hwn wedi'i threfnu ar gyfer mis Tachwedd. Cytunwyd y dylid cylchredeg y Canllaw ar y Cyfryngau Cymdeithasol i'r Pwyllgor i aelodau ystyried a hoffent edrych yn ffurfiol ar y Canllaw eto.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor yn amodol ar fân newidiadau gan Gadeirydd y Pwyllgor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro.

43 : CYNLLUN GWAITH 2017-18

Ystyriwyd a thrafodwyd y Cynllun Gwaith drafft ar gyfer y Pwyllgor. Roedd yr Aelodau yn awyddus i'r Arolwg Aelodau gael ei gwblhau yn hwyr yn yr hydref ac i'r canfyddiadau gael eu hadrodd i'r Pwyllgor hwn ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd. Cytunwyd bod yr Arweinwyr a'r Chwipiau yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd sy'n ystyried y canfyddiadau hyn.

Hefyd tynnodd y Cadeirydd sylw at yr eitem fusnes arfaethedig ar ymgysylltu â Chynghorau Cymuned, i edrych ar ffyrdd y gallai'r Pwyllgor wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'i rôl.
Cytunwyd mewn ymateb i awgrym gan Aelod Annibynnol i newid y statws RAG i Flaenoriaeth – Uchel; Canolradd; ac Isel, fel sy'n fwy priodol i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD Cytuno ar y Cynllun Gwaith ar gyfer 2017/18, yn amodol ar y newidiadau wedi'u nodi.

44 : BRIFFIO AELODAU – MEDI 2017

Ystyriwyd cynnwys y brîff nesaf i'r Aelodau ac heblaw am newid cywirdeb newidiadau wedi'u gwneud i'r Cynllun Gwaith, fe'i chymeradwywyd i gael ei gylchredeg i'r holl Aelodau a Chynghorau Cymuned.

Dywedodd y Swyddog Monitro y caiff fformat briffiau'r dyfodol ei adolygu yn unol â brandio ar gyfer y Cyngor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r Brîff i'r Aelodau.

45 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD – Cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

22 Tachwedd 2017
28 Mawrth 2018
13 Mehefin 2018